YMWELIAD DIWRNOD / *DAY VISITS*

Gwersyll Yr Urdd Glan-llyn – Newidiadau i'r safle - Covid-19

Site arrangements – Covid-19

Cyrraedd y Gwersyll

Gofynnwn i chi yrru lawr at y 'barrier' sydd wrth y dderbynfa ac i bawb aros yn y cerbyd/ bws heblaw am arweinydd y cwrs. Bydd aelod o dîm rheoli Glan-llyn yn eich cwrdd yno ac yn rhoi cyfarwyddiadau pellach. Cewch eich tywys i'ch man cyfarfod/ ymgynnull am y dydd. Gofynnir i bawb olchi eu dwylo gan ddefnyddio y pwyntiau hylendid dwylo sydd wrth pob mynediad wrth fentro i mewn i'r adeilad. Lle mae'n bosibl, mi fydd gwybodaeth rheolau a canllawiau y Gwersyll yn cael ei gyflwyno tu allan. Bydd unrhyw gyfathrebu y tu mewn yn dilyn canllawiau pellhau cymdeithasol.

Gwersyll 1 a Gwersyll 2

Mae'r gwersyll wedi cael ei rannu yn ddwy ar gyfer caniatáu dwy ysgol / grŵp ar y safle yr un pryd. Bydd pob grwp yn derbyn bandiau lliw sy'n cyfateb i'w ardal nhw am y dydd, ac yn derbyn cyfarwyddiadau gan staff Glan-llyn yn y bore.

Mygydau

Rhaid i bawb sydd dros 11 oed wisgo mwgwd ym mhob ardal cyhoeddus dan do yn y Gwersyll. Pan yn eich man cyfarfod unigol chi fel ysgol, disgwylir i chi ddilyn eich canllawiau ysgol.

Gweithgareddau

Rydym wedi asesu yr ystod o weithgareddau rydym yn ei ddarparu ac wedi gwneud newidiadau i'n gweithdrefnau er mwyn ystyried oblygiadau COVID19. Pe bai digwyddiad yn ystod y gweithgareddau, mi fydd yr hyfforddwyr yn gweithredu yn rhesymol er mwyn diogelu unigolion. Disgwylir i grwpiau 'swigen', fwynhau y gweithgareddau gyda'i gilydd. Gofynnir i chi fabwysiadu y grwpiau yma am eich cyfnod yn y Gwersyll ac i beidio cymysgu ag eraill sydd tu allan i'ch swigen chi. Lle nad ydych yn gweithredu fel grŵp 'swigen' rhaid cadw at ganllawiau pellter cymdeithasol ar bob achlysur. Byddech yn derbyn amserlen o'ch gweithgareddau cyn eich ymweliad.

Offer

Bydd pob unigolyn yn derbyn yr holl offer angenrheidiol ar gyfer y gweithgareddau rydym yn ddarparu. Ar ôl defnyddio unrhyw offer ar y weithgaredd mi fydd staff yn eich cyfeirio i gadw yr offer mewn man penodol er mwyn diheintio neu gosod mewn cwarantîn.

Bwyta

Does dim bwyd ar gael yn y Gwersyll ar gyfer ymweliadau diwrnod, disgwylir i bawb ddod a pecyn bwyd efo nhw. Yn ystod amser cinio rhaid unai bwyta tu allan neu mewn lleoliad tu mewn sydd wedi ei neilltuo i chi.

Cymorth Cyntaf

Mewn argyfwng cymorth cyntaf mi fydd staff y Gwersyll yn gweithredu yn rhesymol gan ddilyn canllawiau pendant sydd yn cynnwys y defnydd o offer diogelwch personol lle'n briodol.

Pwyntiau cyswllt a Glanhau

Ein polisi safonol yw sicrhau bod y Gwersyll yn cadw at safonau glendid o ansawdd da. Yn ystod eich cyfnod yn y Gwersyll disgwylir i bob ymwelydd golchi eu dwylo yn rheolaidd a gwneud defnydd or pwyntiau hylendid dwylo. Gofynnwn hefyd i chi ddod a hylif golchi dwylo efo chi os un bosib. Mi fydd y tîm glanhau yn glanhau a diheintio pwyntiau cyswllt y Gwersyll yn rheolaidd gan gwneud pob ymdrech i gadw pawb yn ddiogel ac yn iach.

Diolch yn fawr am eich dealltwriaeth a'ch cydweithrediad. Rydym yn edrych ymlaen i'ch croesawu i Lan-Llyn!

Arrival at the Centre

On arrival at Glan-Llyn, please stop the vehicle/ bus by the barrier at the main reception. If everyone could stay in the vehicle / bus except for the course leader please, and a member of the Glan-llyn management team will greet you there and give further instructions. You will be taken to your meeting / assembly point for the day. Everyone will be asked to wash their hands using the hand hygiene points at each building entry. Where possible, information about the rules and guidelines of the Centre will be presented outdoors. Any information presented indoors will follow social distancing guidelines.

Glan-llyn 1 and Glan-llyn 2

Glan-llyn has been split into two areas, to allow two schools/ groups to visit at the same time. Each group will be allocated their own area, and coloured wrist bands. Instructions will be given on arrival.

Face Covering

Face coverings must be worn in all indoor public areas by those above the age of 11. When in your allocated indoor meeting and dining area, you should follow your own school procedures.

Activities

We have assessed the range of activities we provide and made changes to our procedures to take into account the implications of COVID19. In the event of an incident during the activities, the instructors will act reasonably to protect individuals. Bubble groups are expected to enjoy the activities together. Please adopt these groups for your time at the Centre and do not mix with others outside your bubble. Where you do not operate as a 'bubble' group, social distance guidelines must be adhered to at all times. You will receive a timetable before your arrival.

Equipment

Individuals will be provided with all the equipment needed for the activities we provide. After using any equipment on the activity staff will direct you to keep the equipment in a specific place for disinfecting or quarantine.

Meals

There is no food available at the Centre, please bring packed lunches with you. At mealtimes you must either eat outside or in an indoor setting reserved for you.

First Aid

In a first aid emergency the staff at the Centre will act reasonably and follow strict guidelines which include the use of personal protective equipment where appropriate.

Contact Points and Cleaning

Our standard policy is to ensure that the Centre adheres to good standards of cleanliness. During your time at the Centre all visitors are expected to wash their hands regularly and make use of the hand hygiene points. We also ask you to bring hand washing fluid with you if possible. The cleaning team will regularly clean and disinfect the Centre's contact points and make every effort to keep everyone safe and healthy.

Thank you for your understanding and cooperation, we look forwards to welcoming you to Glan-Llyn!